Estyn

*Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymunedol Pentraeth
# Pentraeth
# Ynys Mon
# LL75 8UP

## Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2012

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 21/08/2012**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Gymunedol Pentraeth yng nghanol pentref Pentraeth ar Ynys Môn. Mae'r ysgol yn gwasanaethu'r pentref a'r ardal wledig o amgylch.

Mae 90 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol gan gynnwys 10 o blant meithrin rhan amser. Gwelwyd niferoedd y disgyblion yn cynyddu dros y tair blynedd diwethaf.

Daw 19% o'r disgyblion o aelwydydd Cymraeg. Mae 2% o'r disgyblion o gefndir ethnig.

Mae 6% o ddisgyblion â'r hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim sydd yn is na'r canrannau sirol a chenedlaethol. Mae 24% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol gyda 2% ar ddatganiad. Mae'r ffigyrau hyn yn is na'r ffigyrau cenedlaethol. Ni chofnodwyd unrhyw waharddiad parhaol na thros dro yn y flwyddyn cyn yr arolygiad.

Mae'r pennaeth presennol yn ei swydd ers 2009.

Y gyllideb fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gymunedol Pentraeth yn 2011-2012 yw £3,341. Yr uchafswm o ran cyllideb ysgol fesul disgybl yn ysgolion cynradd Sir Fôn yw £6,563 a'r lleiafswm yw £2,636. Mae Ysgol Gymunedol Pentraeth yn safle 30 allan o'r 50 ysgol gynradd yn Sir Fôn o safbwynt y gyllideb fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol Ysgol Gymunedol Pentraeth yn dda gan fod:

- perfformiad yr ysgol ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 dros y ddwy flynedd diwethaf wedi codi, ac yn cymharu'n ffafriol â'r teulu o ysgolion a Chymru;
- safon y gwaith a welwyd yn llyfrau'r disgyblion ac yn y gwersi yn gyson dda;
- yr ysgol yn amgylchedd sy'n annog dysgu effeithiol a meithrin ymdeimlad o falchder; ac
- mae'r cyngor ysgol yn chwarae rhan flaenllaw ym mywyd yr ysgol.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella yn dda oherwydd bod:

- gan y pennaeth weledigaeth gadarn sy'n cael ei rhannu'n llwyddiannus â'r staff, disgyblion, rhieni a llywodraethwyr;
- y pennaeth wedi llwyddo i greu cymuned ofalgar lle mae lles a llais y disgybl yn cael rhan flaenllaw ym mywyd yr ysgol;
- gan y pennaeth adnabyddiaeth dda o'r ysgol; a
- bod ymdeimlad cryf o dîm ymysg staff yr ysgol.

Er hynny:

- nid yw yr adroddiad hunanarfarnu yn rhoi darlun digon manwl ac arfarnol o fywyd yr ysgol ac nid yw'r cynllun datblygu'r ysgol yn ddigon meintiol i fonitro cynnydd mewn perfformiad.

## Argymhellion

A1 codi safonau diwedd cyfnod allweddol 2 mewn ysgrifennu Cymraeg a Saesneg;

A2 codi disgwyliadau o ran safonau a herio disgyblion i ymgyrraedd â'r lefelau uwch ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol;

A3 datblygu strategaethau asesu ar gyfer dysgu ac ymateb i waith gan sicrhau cysondeb ar draws yr ysgol;

A4 ymateb i ddiffygion yn yr adeilad;

A5 datblygu rôl y llywodraethwyr, a'u dealltwriaeth o ddata'r ysgol er mwyn herio'r ysgol ynglŷn â'i pherfformiad; a

A6 sicrhau bod yr hunanarfarnu yn gywir ac yn llawer mwy arfarnol, a bod y cynllun datblygu'r ysgol yn defnyddio targedau meintiol a mesuradwy.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn paratoi cynllun gweithredu yn dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion uchod. Bydd Estyn yn gofyn i'r awdurdod lleol adrodd ar gynnydd yr ysgol yn erbyn argymhellion ymhen blwyddyn.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn canolbwyntio'n dda ac yn dwyn i gof eu dysgu blaenorol. Maent yn cydweithio'n dda â'i gilydd ac yn ymateb yn briodol i'r tasgau a gyflwynir iddynt. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol.

Mae bron pob disgybl ar draws yr ysgol yn gwrando'n dda.

Mae bron pob disgybl yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da yn eu medrau llythrennedd. Mae gan ran fwyaf y disgyblion afael gadarn ar y Gymraeg sy'n briodol i'w hoedran ac mae hyfedredd llafar y disgyblion o gartrefi di-Gymraeg yn datblygu'n fuan iawn. Cyfranna'r rhan fwyaf yn frwdfrydig mewn gweithgareddau dosbarth gan ddefnyddio geirfa gynyddol a hynny mewn modd clir a chywir. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos hoffter at lyfrau ac yn gwneud cynnydd priodol yn eu darllen. Maent yn darllen gyda mynegiant a dealltwriaeth gan gymryd sylw gofalus o atalnodi. Maent yn barod iawn i drafod agweddau o'r testun, gyda'r goreuon yn troi at y testun wrth chwilio am wybodaeth berthnasol.

Mae mwyafrif y disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd priodol yn eu gallu i ysgrifennu'n annibynnol, gydag ychydig yn dechrau ysgrifennu'n estynedig. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, gall mwyafrif o'r disgyblion ysgrifennu i ystod o bwrpasau gan ddangos gafael briodol ar ffurf ac atalnodi sylfaenol. Mae ansawdd cyflwyniad y gwaith a llawysgrifen y rhan fwyaf o'r disgyblion yn dda.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau darllen. Medrant ddarllen yn ystyrlon a chyda mynegiant da yn y ddwy iaith. Yn y Saesneg, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n ddarllenwyr hyderus a defnyddiant eu medrau cywain gwybodaeth yn effeithiol i ddod o hyd i wybodaeth benodol o lyfr. Mae medrau darllen y mwyafrif o'r disgyblion yn datblygu'n briodol yn y Gymraeg. Maent yn darllen gyda mynegiant a dealltwriaeth ac yn barod iawn i fynegi barn am y testun.

Mae'r disgyblion sydd wedi derbyn cymorth ychwanegol i wella eu medrau darllen yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae medrau llafar y rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu'n briodol. Dônt yn hyderus wrth siarad am eu gwaith ac mewn sgyrsiau anffurfiol, a hynny yn y ddwy iaith.

Mae'r mwyafrif o'r disgyblion cyfnod allweddol 2 yn ysgrifennu'n ddeallus mewn ystod eang o ffurfiau ysgrifenedig yn y ddwy iaith. Maent yn dangos safon briodol o ran cywirdeb iaith ac yn defnyddio ymadroddion ac ystod o eirfa yn effeithiol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r mwyafrif o'r disgyblion yn trefnu eu gwaith yn baragraffau ac yn ei gyflwyno'n daclus. Yng nghyfnod allweddol 1, mae canran y

disgyblion saith oed sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig (lefel 2) mewn Cymraeg mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad, wedi bod ychydig yn is na'r teulu o ysgolion tebyg a Chymru tros y pedair blynedd diwethaf. Er hynny, mae perfformiad yr ysgol dros y ddwy flynedd diwethaf wedi codi, ac yn 2011, roedd perfformiad yr ysgol yn y pynciau craidd yn uwch na'r ysgolion tebyg a ffigyrau Cymru. Mae cyflawniad y disgyblion dros amser mewn mathemateg wedi cymharu'n ffafriol â'r teulu o ysgolion tebyg.

Dros y pum mlynedd diwethaf, mae perfformiad yr ysgol yng nghyfnod allweddol 1 wedi amrywio ond wedi bod gan amlaf yn y 25% i'r 50% isaf o gymharu ag ysgolion o ran hawl i brydau ysgol am ddim.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig (lefel 4) mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad wedi bod yn uwch na chyfartaledd y teulu a Chymru dros y ddwy flynedd diwethaf. Mae'r ganran o ddisgyblion a gyflawnodd lefel 4 mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi bod yn is na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg dros y pedair blynedd diwethaf. Serch hynny, mae perfformiad yr ysgol yn y pynciau hyn wedi codi dros y ddwy flynedd diwethaf. Yn gyffredinol, nid yw canran y disgyblion a gyflawnodd lefel 5 neu uwch yn cymharu'n ffafriol â ffigyrau'r teulu o ysgolion a Chymru.

Nid oes bwlch arwyddocaol rhwng cyflawniadau'r bechgyn a'r merched yng nghyfnod allweddol 1. Fodd bynnag, yng nghyfnod allweddol 2, tros gyfnod mae'r bechgyn wedi perfformio'n well na'r merched ar lefel 5 mewn gwyddoniaeth.

Dros gyfnod o bum mlynedd mae canran y disgyblion a gyflawnodd lefel 4 mewn mathemateg, yn gosod yr ysgol ymhlith y 50% i'r 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran hawl i brydau ysgol ddi-dâl am ddwy o'r pum mlynedd hynny.

Er mai darlun cymysg sydd i'r data, mae ansawdd y gwaith yn llyfrau'r disgyblion a'r cynnydd a wnânt yn y gwersi yn gyson dda.

**Lles: Da**

Mae gan ran fwyaf y disgyblion ymwybyddiaeth dda o faterion iechyd ac maent yn cyflawni'n dda iawn yn eu datblygiad personol, cymdeithasol a diwylliannol. Trwy fynychu clybiau chwaraeon, mae ymwybyddiaeth y disgyblion o bwysigrwydd cadw'n iach yn datblygu'n briodol. Mae pob un yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi am gyngor. Mae bron pob un yn dangos diddordeb yn eu gwersi, ac yn lleisio eu barn yn synhwyrol am yr hyn y maent yn ei ddysgu.

Mae ymddygiad y disgyblion yn dda ar draws yr ysgol ac mae bron pob un o'r disgyblion yn gwrtais ac yn ymateb yn barchus i'w cyfoedion ac i oedolion.

Dros gyfnod o dair blynedd mae'r gyfradd bresenoldeb wedi cynyddu i 94%, sydd yn cymharu'n ffafriol iawn â rhai ysgolion tebyg a chyfartaledd cenedlaethol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

Mae aelodau o gyngor yr ysgol a'r cyngor chwarae yn cymryd rhan flaenllaw a gweithredol trwy wneud penderfyniadau, sy'n cael effaith gadarnhaol ar fywyd a gwaith yr ysgol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn cynllunio profiadau dysgu llwyddiannus sy'n ennyn diddordeb a chymhelliant y disgyblion ar draws yr ysgol. Caiff disgyblion y cyfle i gyfrannu eu syniadau i'r themâu a addysgir yn y dosbarth, ac mae hyn yn rhoi perchnogaeth iddynt o'u dysgu. Mae'r ddarpariaeth i sicrhau bod y disgyblion yn caffael medrau llythrennedd, rhifedd, cyfathrebu a thechnoleg gwybodaeth yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio bob amser yn sicrhau dilyniant a pharhad yn y medrau ar draws yr ysgol.

Mae egwyddorion y Cyfnod Sylfaen wedi eu sefydlu'n gadarn ac yn sicrhau fod yr holl ddisgyblion yn elwa o weithgareddau ysgogol a bywiog.

Mae'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau dysgu annibynnol yn gadarn ac yn amlygu ei hun yn dda ym mywyd dyddiol yr ysgol.

Gwneir defnydd effeithiol o ymwelwyr allanol ac ymweliadau addysgol i gyfoethogi'r profiadau. Mae'r ysgol yn manteisio'n llawn ar ymweliadau gan feirdd ac artistiaid a thrwy hyn yn datblygu eu dealltwriaeth o lenyddiaeth a chelf.

Mae'r ysgol yn datblygu dealltwriaeth y disgyblion o gynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang drwy weithgareddau amrywiol megis gweithdai celf, coginio a cherddoriaeth.

Caiff y ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig ei datblygu'n gadarn. Mae'r cyfleoedd i gystadlu mewn eisteddfodau yn cyfoethogi profiadau'r disgyblion o'r diwylliant Cymreig.

**Addysgu: Da**

Yn gyffredinol, mae'r addysgu yn dda ar draws yr ysgol. Mae'r nodweddion da yn cynnwys cwestiynu medrus sy'n ymestyn dealltwriaeth y disgyblion mewn amgylchedd dysgu cadarnhaol. Mae perthynas waith lwyddiannus yn bodoli rhwng y disgyblion a'r staff. Defnyddia'r athrawon adnoddau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu i atgyfnerthu'r dysgu a'r addysgu yn effeithiol. Mae gan yr athrawon ddealltwriaeth gadarn o'r cwricwlwm. Mae pob un o'r staff addysgu, gan gynnwys y staff cynorthwyol, yn modelu iaith yn gywir, ac yn defnyddio strategaethau ymddygiad yn effeithiol i gadw'r disgyblion ar dasg.

Mewn ychydig iawn o wersi, nid yw'r addysgu bob tro yn ysgogi'r disgyblion i weithio ar lefelau sy'n briodol i'w gallu ac nid yw'r gwaith yn cwrdd ag anghenion yr holl ddisgyblion, yn enwedig y disgyblion mwy dawnus. Mae'r tasgau ar adegau yn rhy strwythuredig ac yn rhwystro disgyblion rhag meddwl drostynt eu hunain.

Mae disgyblion yn elwa o'r ffaith bod eu hathrawon yn siarad yn sensitif a chanmoladwy â nhw am ansawdd eu gwaith ac yn rhoi awgrymiadau ac anogaeth iddynt ar sut i'w wella. Lle mae enghreifftiau da o ymateb i waith ysgrifenedig, fe roddir sylwadau adeiladol ar sut i wella. Fodd bynnag, nid yw hyn yn gyson.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn datblygu'n briodol mewn rhai dosbarthiadau. Fodd bynnag, mae peth anghysondebau yn y gweithdrefnau ar draws yr ysgol.

Mae'r ysgol yn asesu gwaith yn effeithiol ac fe wneir defnydd effeithiol o asesiadau i dracio cynnydd disgyblion ac i ddarparu cefnogaeth ychwanegol.

Mae'r adroddiadau i rieni yn dda ac yn rhoi gwybodaeth briodol am gynnydd a chyflawniad eu plentyn.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol a gofalgar, ble mae oedolion a disgyblion yn dangos gofal a pharch tuag at ei gilydd ac eraill. Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn llwyddiannus.

Caiff agweddau o fyw yn iach eu hyrwyddo'n effeithiol ar draws y cwricwlwm ac mewn gweithgareddau allgyrsiol.

Mae gan yr ysgol system drylwyr sydd wedi ei rheoli'n dda ar gyfer dynodi a chwrdd ag anghenion disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r ymyrraeth gynnar yn darparu cefnogaeth effeithiol i'r disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol gyda'u gwaith. Mae'r ysgol yn darparu cynlluniau addysgu unigol sy'n gosod targedau clir a phriodol. Caiff y rhain eu hadolygu a'u monitro yn gyson ac maent yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau disgyblion.

Mae cysylltiadau effeithiol rhwng yr ysgol ac asiantaethau allanol ac, o ganlyniad, mae ansawdd y gofal a'r gynhaliaeth i'r disgyblion yn dda.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisi priodol ar gyfer diogelu.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned glos, ofalgar a chroesawgar sy'n hyrwyddo cyfle cyfartal yn dda. Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd dysgu lliwgar ac ysgogol sy'n fodd i gyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion. Mae amgylchedd ffisegol yr ysgol yn dda; mae digon o ofod ac mae'r 'stafelloedd wedi'u haddurno gydag arddangosfeydd a gwaith celf symbylus. Mae pob dosbarth yn ddeniadol a'r arddangosfeydd yn dangos gwaith cyfredol y disgyblion.

Mae'r adeilad a thir yr ysgol yn cael eu defnyddio'n effeithiol ac yn cael eu cynnal yn briodol. Fodd bynnag, mae nifer fach o faterion yn yr amgylchedd ffisegol sydd angen sylw yn fuan er mwyn sicrhau diogelwch y disgyblion.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ac mae'n llwyddo i'w rhannu'n llwyddiannus â'r llywodraethwyr, staff, rhieni a'r disgyblion. Mae'r pennaeth yn adnabod yr ysgol yn dda ac yn cynnig cyfeiriad clir i fywyd a gwaith yr ysgol. Trwy gydweithio ag eraill, mae'n cynnig amgylchedd sy'n annog dysgu effeithiol gan feithrin ymdeimlad o falchder yn yr ysgol a'r gymuned.

Yn dilyn cyfnod o newid yn staffio'r ysgol, llwyddodd y pennaeth i roi strategaethau cadarn ar waith sydd yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau'r disgyblion. Serch hynny, nid ydynt i gyd wedi eu ffurfioli nac wedi eu datblygu'n llawn ar draws yr ysgol. Mae cyfrifoldebau a rôl y staff wedi eu diffinio'n briodol ac mae holl staff yr ysgol yn cydweithio'n effeithiol fel tîm i weithredu'r blaenoriaethau gwelliant. Mae hyn yn gryfder. Mae'r ysgol yn dechrau dadansoddi data perfformiad yn fwy effeithiol ac mae hyn wedi arwain at ddarparu cymorth ychwanegol i grwpiau o ddisgyblion ac at welliannau mewn darllen.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn i fywyd a gwaith yr ysgol ac mae eu rôl yn datblygu'n briodol. Mae rhai aelodau o'r corff yn ymweld â'r ysgol i fonitro agweddau o'r cwricwlwm er mwyn cael darlun ehangach o safonau a pherfformiad yr ysgol. Derbynia'r corff adroddiadau tymhorol gan y pennaeth ac mae llywodraethwyr yn ymwybodol, yn gyffredinol, o'r meysydd sydd angen eu datblygu yng nghwricwlwm yr ysgol. Mae ganddynt ymwybyddiaeth o ddata, ond nid yw eu dealltwriaeth ohono wedi datblygu'n llawn i herio'r ysgol mewn perthynas â pherfformiad yr ysgol a chyflawniadau disgyblion.

Llwydda'r ysgol i dalu sylw dyledus i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Enghraifft nodedig o hyn yw'r ddarpariaeth yn y Cyfnod Sylfaen sy'n cynnig profiadau ysgogol i'r disgyblion, ac sy'n annog dysgu effeithiol. Mae cymunedau dysgu proffesiynol ar waith o fewn yr ysgol, ac mae hyn wedi arwain at godi safonau llythrennedd yn enwedig mewn darllen.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae'r pennaeth wedi dechrau cynnwys pawb yn y broses hunanfarnu a chynllunio datblygiad yr ysgol. Mae'r hunanarfarnu yn seiliedig ar arsylwadau priodol o fonitro'r addysgu a'r dysgu. Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol ar gyfer casglu barn y rhieni a'r disgyblion trwy holiaduron ac maent yn ymateb i'w dyheadau ac awgrymiadau yn briodol.

Cyflwynwyd y drefn newydd o hunanarfarnu i'r athrawon a'r corff llywodraethol yn ddiweddar ond nid yw'r prosesau hyn wedi eu datblygu'n ddigonol. Mae rhai agweddau o'r ddogfen yn aneglur. Nid yw data diwedd cyfnod allweddol yn cael ei ddadansoddi'n ddigon manwl gan yr ysgol i ddatblygu eu dealltwriaeth o safonau ac i roi darlun clir o berfformiad yr ysgol. Serch hynny, mae'r ysgol wedi adnabod yr angen i ddatblygu darllen ac wedi rhoi strategaethau ar waith i ymateb i hyn.

Mae peth cyswllt rhwng yr hunanarfarnu a'r cynllun datblygu ysgol. Mae'r cynllun datblygu ysgol yn nodi'r strategaethau a therfynau amser priodol. Serch hynny, nid yw rhai o'r targedau gwelliant yn ddigon meintiol.

Mae arweinwyr yr ysgol yn monitro'r cynllun yn rheolaidd; er hynny, gan nad oes targedau meintiol, nid oes ganddynt ddigon o wybodaeth i fesur cynnydd. Mae'r ysgol yn gweithio mewn partneriaeth gydag ysgolion eraill, asiantaethau allanol a'r awdurdod lleol, gyda thystiolaeth glir bod hyn yn arwain at godi safonau.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol ystod briodol o bartneriaethau strategol sy'n cyfrannu at ymestyn y ddarpariaeth ac at godi safonau'r disgyblion.

Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus iawn gyda rhieni a gofalwyr ac mae ymatebion yr holiaduron yn cadarnhau hyn. Mae partneriaeth gadarn rhwng yr ysgol a'r rhieni i ddatblygu llythrennedd ac i hybu bwyta'n iach. Mae'r rhieni yn cyfrannu'n effeithiol at waith yr ysgol drwy weithgareddau'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd priodol o'r gymuned er mwyn gwella'r ddarpariaeth. Mae rhai aelodau o'r gymuned yn cael eu gwahodd i'r ysgol i weithio gyda'r disgyblion ac i ehangu eu gwybodaeth mewn amryw o feysydd sy'n cynnwys cerddoriaeth a chrefft. Lleolir yr ysgol feithrin yn yr ysgol ac mae'r bartneriaeth hon yn glos ac effeithiol.

Mae trefniadau trosglwyddo llwyddiannus yn bodoli rhwng yr ysgol a'r ysgol uwchradd leol. Mae'r ysgol yn cydweithredu'n dda gyda phartneriaid i gynllunio a rheoli darpariaeth. Mae'r cysylltiadau hyn yn cyfoethogi'r broses o gymedroli a chyd safoni ar ddiwedd cyfnod allweddol 2.

Mae gan yr ysgol bartneriaeth agos gyda'r awdurdod lleol sy'n dylanwadu ar safon y ddarpariaeth.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol lefel briodol o staff i addysgu'r cwricwlwm yn effeithiol. Gwneir defnydd effeithiol o arbenigedd staff trwy gyfnewid dosbarthiadau. Mae'r defnydd a wneir o staff ategol yr ysgol yn dda ac maent yn gweithio'n effeithiol ochr yn ochr ag athrawon i gefnogi grwpiau penodol.

Rheolir perfformiad y staff yn briodol a defnyddir y broses i adnabod ac i gynnig cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus.

Mae gwariant wedi'i gysylltu'n glir â blaenoriaethau yn y cynllun datblygu ac mae'r gyllideb yn cael ei monitro'n gyson ac yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Gan mai nifer cymharol fach o ddisgyblion sydd yn cael eu hasesu ar ddiwedd cyfnodau allweddol, rhaid trin y data yn ofalus gan fod canlyniadau un plentyn yn cyfri am ganran uchel o'r garfan ymhob blwyddyn.

Yn asesiadau diwedd cyfnod allweddol 1, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig (lefel 2) mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad, wedi bod yn gyson is na chyfartaleddau'r teulu a Chymru tros y dair blynedd diwethaf. Mae hyn hefyd yn wir am y pynciau yn unigol. Er hynny, roedd perfformiad yr ysgol yn 2011 yn y pynciau craidd yn uwch na chyfartaledd ysgolion y teulu, a ffigyrau Cymru. Mae cyflawniad y disgyblion dros amser mewn mathemateg wedi cymharu'n ffafriol â'r teulu o ysgolion tebyg. Dros gyfnod o bum mlynedd, mae cyflawniad disgyblion mewn darllen ac ysgrifennu wedi bod yn gyson is na'r teulu am gyfnod helaeth o'r amser.

Dros y pum mlynedd diwethaf, mae perfformiad yr ysgol yng nghyfnod allweddol 1 wedi amrywio ond wedi bod gan amlaf yn y 25% i'r 50% isaf o gymharu ag ysgolion o ran hawl i brydau ysgol am ddim.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig (lefel4) mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad wedi bod yn uwch na chyfartaledd y teulu a Chymru dros y ddwy flynedd diwethaf. Mae'r ganran o ddisgyblion a gyflawnodd lefel 4 mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi bod yn gyson is na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg dros gyfnod o amser. Er hynny, mae perfformiad y disgyblion yn y pynciau hyn wedi codi dros y ddwy flynedd diwethaf.

Mae perfformiad mewn ysgrifennu Cymraeg a Saesneg wedi bod yn sylweddol is na ffigyrau teulu a Chymru am gyfnod o bedair blynedd. Fodd bynnag, mae canrannau mewn ysgrifennu yn y ddwy iaith wedi codi yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Yn gyffredinol, mae canran y disgyblion a gyflawnodd lefel 5 neu uwch wedi bod yn is na ffigyrau'r teulu o ysgolion a Chymru dros y pum mlynedd diwethaf.

Dros gyfnod o bum mlynedd roedd canran y disgyblion a gyflawnodd lefel 4 mewn mathemateg, yn gosod yr ysgol ymhlith y 50% i'r 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran hawl i brydau ysgol ddi-dâl am ddwy o'r pum mlynedd hynny.

Yng nghyfnod allweddol 1, nid oes patrwm cyson o dangyflawniad bechgyn o gymharu â'r merched. Mae'r ganran o fechgyn yng nghyfnod allweddol 2 sy'n cyrraedd lefel 5 neu uwch mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi bod yn uwch na'r merched am dair o'r pum mlynedd diwethaf.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr**

Derbyniwyd 43 o ymatebion gan ddisgyblion.

Mae pob disgybl yn nodi:

- eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a'u bod yn gwybod pwy i siarad ag ef/hi os ydynt yn poeni neu'n gofidio;
- bod llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i gael ymarfer corff yn rheolaidd a bod yr ysgol yn eu dysgu sut i gadw'n iach;
- eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol a'u bod yn gwybod beth i'w wneud a gyda phwy siarad os ydynt yn gweld y gwaith yn anodd;
- bod ganddynt ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud eu gwaith a bod y gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella eu gwaith yn yr ysgol; a
- bod bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.

Mae bron pob un yn nodi:

- bod yr athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd; a
- bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio.

Mae'r rhan fwyaf yn credu:

- bod plant eraill yn ymddwyn yn dda a'u bod yn gallu gwneud eu gwaith.

Mae 98% o ddisgyblion yn credu bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio sydd yn uwch na'r ffigwr cenedlaethol o 92% ar gyfer ysgolion cynradd yng Nghymru.

**Ymateb i holiadur i rieni**

Derbyniwyd 51 o ymatebion wedi eu llenwi gan rieni/gofalwyr:

Mae pob un yn cytuno:

- eu bod yn cael gwybodaeth gyson am gynnydd eu plentyn;
- bod eu plentyn wedi cael cymorth i ymgartrefu yn yr ysgol a bod amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau;
- bod eu plant yn cael eu hannog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff;
- bod eu plentyn yn ddiogel yn yr ysgol a'u bod yn deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion;
- bod yr ysgol yn helpu'r plant i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb;
- bod y staff yn disgwyl i'w plentyn wneud ei orau, a bod eu plentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol; a

- bod disgyblion yn ymddwyn yn briodol a bod y staff yn trin pob plentyn gyda pharch.

Mae bron pob un yn cytuno:

- bod eu plant yn hoffi'r ysgol, bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda a'u bod yn fodlon gyda'r ysgol;
- bod yr addysgu'n dda a'u bod yn teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem; a
- bod eu plentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf.

Mae'r rhan fwyaf yn credu:

- bod y gwaith cartref yn adeiladu ar yr hyn a ddysgir yn yr ysgol.

Mae 100% o rieni yn credu bod eu plentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol sydd yn uwch na'r ffigwr cenedlaethol o 96% ar gyfer ysgolion cynradd yng Nghymru

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Anwen Griffith | Arolygydd Cofnodol |
| Carolyn Thomas | Arolygydd Tîm |
| Jeremy Turner | Arolygydd Lleyg |
| Helen Griffiths | Arolygydd Cymheiriaid |
| Lynne Jones | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

# Rhestr termau – Cynradd

## Cwricwlwm Cenedlaethol

### Lefelau disgwyliedig y Cwricwlwm Cenedlaethol

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.

### Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.